Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

RHIF YMCHWIL GYMDEITHASOL: 115/2025
DYDDIAD CYHOEDDI: 27/11/2025

# Archwilio Effaith Cynyrchiadau a Ariannwyd gan Gymru Greadigol

**Crynodeb Gweithredol**

## 1. Nodau ymchwil a methodoleg

1.1 Rhwng 2020/21 a 2024/25, dyfarnwyd £23.7 miliwn o gyllid i 45 o brosiectau sgrin a digidol o fewn cwmpas yr astudiaeth hon, gan gefnogi cynnwys wedi'i sgriptio, di-sgript, animeiddio a gemau. Amcangyfrifir bod y buddsoddiad hwn wedi trosoli £263.9 miliwn o wariant cynhyrchu yng Nghymru (yr holl ffigurau ym mhrisiau 2024/25). Mae hyn yn cyfateb i amcangyfrif o tua £11.15 mewn gwariant cynhyrchu yng Nghymru am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol.

1.2 Er na ellir priodoli’r holl weithgarwch cynhyrchu a adroddwyd gan y 45 prosiect a ariannwyd yng nghwmpas yr astudiaeth i gyllid Cymru Greadigol yn unig, nododd llawer o arweinwyr cynyrchiadau yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r astudiaeth hon fod buddsoddiad Cymru Greadigol wedi galluogi neu gyflymu eu prosiectau.

1.3 Mae'r gwerthusiad hwn yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar ddamcaniaeth a dulliau cymysg, gan gyfuno modelu economaidd gydag ymgynghoriadau rhanddeiliaid â 31 unigolyn ac adolygiad data eilaidd. Datblygwyd fframwaith gwerth economaidd pwrpasol i ddal effeithiau uniongyrchol, anuniongyrchol ac ysgogedig gan Gyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol, gan gynnwys effeithiau yn y gadwyn gyflenwi, datblygu'r gweithlu, sgil-effeithiau o ran seilwaith, a thwristiaeth wedi’i hysgogi gan sgrin.

1.4 Defnyddiwyd modelu Mewnbwn Allbwn i fesur effeithiau economaidd gan ddefnyddio tablau Mewnbwn Allbwn 2019 sydd newydd eu cyhoeddi ar gyfer Cymru, a dyma un o’r troeon cyntaf i’r tablau hyn gael eu defnyddio yn y sector sgrin. Mae'r dull yn cyd-fynd â Llyfr Gwyrdd Trysorlys EF ac arferion y diwydiant. Hyd yn oed wedyn, mae’r amcangyfrifon o reidrwydd yn geidwadol oherwydd cyfyngiadau yn y data monitro sydd ar gael a pha mor fanwl ydyw (e.e. diffyg gwybodaeth am niferoedd gweithwyr llawrydd, dadansoddiadau gwariant rhannol, a data daearyddol anghyflawn). Felly dylid dehongli'r canfyddiadau fel amcangyfrif cadarn ond gofalus o’r gwerth a gynhyrchwyd gan y cynyrchiadau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol.

## 2. Canfyddiadau allweddol - Effaith economaidd a chyrhaeddiad yn y gadwyn gyflenwi

2.1 Mae Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol yn ystod y cyfnod yng nghwmpas yr astudiaeth wedi sicrhau enillion economaidd sylweddol. Amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gwariant cynhyrchu yn cynhyrchu £159.9 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol ac yn cefnogi 2,650 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ledled Cymru, gan godi i £177.8 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a 2,835 o swyddi cyfwerth ag amser llawn pan gaiff effeithiau ysgogedig eu cynnwys. Mae canlyniadau'r adroddiad hwn yn awgrymu:

- Am bob £1 o gyllid cynhyrchu Cymru Greadigol, cynhyrchodd hyn £6.76 mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol[1];
- Mae cyfraniad o ran gwerth ychwanegol gros uniongyrchol o wariant cynhyrchu o £103.5 miliwn yn cyfateb i oddeutu 26% o gyfanswm allbwn sector Ffilm, Teledu, Fideo, Radio a Ffotograffiaeth Cymru yn 2023[2];
- Mae cyfanswm y cyfraniad o ran gwerth ychwanegol gros o £177.8 miliwn yn cyfateb i 0.2% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros yng Nghymru yn y data diweddaraf sydd ar gael ar gyfer 2023[3];
- Mae'r 1,780 o swyddi cyfwerth ag amser llawn uniongyrchol a gefnogwyd yn cyfateb i 350 o swyddi cyfwerth ag amser llawn y flwyddyn ar gyfartaledd, sy'n cynrychioli tua 2% o gyfanswm y gyflogaeth yn sector digidol a sgrin Cymru yn 2023[4].

2.2 Mae’r dadansoddiad o wariant cynhyrchu uniongyrchol yn dangos ymhellach ehangder y gwerth a gynhyrchwyd gan wariant cynhyrchu. Nid yw'n syndod mai’r diwydiant sy'n cyfrif am y gyfran fwyaf (62%) o'r gwariant cynhyrchu uniongyrchol yw cynhyrchu ffilmiau, fideos a rhaglenni teledu, gyda £177.23 miliwn mewn gwariant wedi'i wireddu a'i ragweld.

2.3 Nid yw'r effeithiau hyn yn gyfyngedig i'r sector sgrin a digidol ei hun; mae dadansoddiad o'r gwariant cynhyrchu yn cadarnhau bod y buddion wedi’u dosbarthu’n eang ar draws yr economi sylfaenol, yn enwedig ym meysydd llety, adeiladu, logisteg a thrafnidiaeth. Mae hyn yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru i gadw gwerth economaidd yn lleol, fel yr amlinellwyd yn Ffyniant i Bawb: Y Cynllun Gweithredu ar yr Economi a'r Rhaglen Lywodraethu 2021–2026.

---

[1] Er y gall y ffigur hwn ymddangos yn gymedrol o'i gymharu ag asesiadau effaith tebyg yng ngwledydd eraill y DU, mae'n adlewyrchu nodweddion penodol economi sgrin Cymru a'r dewisiadau methodolegol a wnaed yn y gwerthusiad hwn. Yn benodol, mae Tablau Mewnbwn Allbwn newydd Llywodraeth Cymru 2019 a gyhoeddwyd yn 2025 ac a ddefnyddiwyd ar gyfer y modelu hwn, yn awgrymu bod y diwydiant ffilm a theledu yng Nghymru yn cynhyrchu gwerth ychwanegol gros sylweddol is am bob £1 o wariant. Mae hyn oherwydd lefelau uwch o ollyngiadau a chyfraddau elw is o fewn diwydiant ffilm a theledu Cymru. Fodd bynnag, mae'r modelu hefyd yn datgelu cysylltiadau cryf o ran cadwyn gyflenwi, gan ddangos bod cynyrchiadau sy’n seiliedig yng Nghymru yn cynhyrchu gwerth sylweddol ar draws ystod eang o sectorau.

[2] Amcangyfrifon Economaidd Sectorau yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon: Gwerth Ychwanegol Gros Rhanbarthol 2023 - GOV.UK

[3] Stats Cymru Gwerth ychwanegol gros yn ôl ardal ac elfen

[4] Llywodraeth Cymru, 'Ystadegau’r Economi a’r Farchnad Lafur yn Sector Diwydiant Creadigol Cymru, 2018 i 2023', 29 Hydref 2024

### Canfyddiadau yn ôl math o gynhyrchiad

2.4 Yn ôl y math o gynhyrchiad, prosiectau mewnfuddsoddi oedd yn cyfrif am y gyfran fwyaf o gyfanswm gwariant gan gynhyrchu tua £7.18 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o gyllid Cymru Greadigol. Gwnaeth cynyrchiadau cynhenid, er eu bod yn llai o ran maint ariannol, sicrhau enillion cryf o £6.08 am bob £1 gan gefnogi lefelau uwch o gyflogaeth leol, ac adlewyrchu eu rôl wrth adeiladu sector domestig cynaliadwy.

2.5 Cynnwys wedi'i sgriptio oedd y prif ysgogwr effaith economaidd, gan gynhyrchu dros 95% o gyfanswm gwerth ychwanegol gros a’r gyflogaeth a gefnogwyd. Fodd bynnag, gwnaeth prosiectau di-sgript, animeiddio a gemau hefyd ddarparu enillion cystadleuol o gymharu â'u maint, gan gyfrannu at amrywiaeth ac arloesedd creadigol yn y sector.

2.6 Gwnaeth cyfresi a ail gomisiynwyd ddarparu gwerth ychwanegol gros ychydig yn is am bob £1 na phrosiectau un gyfres (£6.63 y £1 a £6.75 y £1, yn y drefn honno) ond roeddent yn chwarae rhan bwysig wrth gefnogi parhad cyflogaeth ac aeddfedu eiddo deallusol.

2.7 Roedd cynyrchiadau Cymraeg eu hiaith yn cynrychioli un o bob pum prosiect a ariannwyd gan gynhyrchu £5.47 mewn gwerth ychwanegol gros am bob £1 o fuddsoddiad. Er eu bod yn llai o ran graddfa, mae'r prosiectau hyn yn hollbwysig wrth hybu cynaliadwyedd diwylliannol ac ieithyddol ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at nodau Cymraeg 2050.

### Sgil effeithiau manteisiol

2.8 Y tu hwnt i effeithiau uniongyrchol gwariant cynhyrchu ar economi Cymru, mae gwerth y rhaglen yn ymestyn drwy amrywiaeth o sgil effeithiau. Yn fwyaf nodedig, daeth twristiaeth wedi’i hysgogi gan sgrin i'r amlwg fel ffrwd fawr o gyfraniad economaidd eilaidd. Mae modelu darluniadol yr adroddiad hwn yn awgrymu y gallai twristiaeth sy'n gysylltiedig â chynyrchiadau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol gyfrannu rhwng £45.3 miliwn a £226.4 miliwn mewn gwerth ychwanegol gros a chefnogi rhwng 1,110 a 5,570 mlynedd o gyflogaeth neu ychydig llai na 1,400 o swyddi. Mae hyn yn cyd-fynd â Croeso i Gymru: Blaenoriaethau i’r Economi Ymwelwyr 2020–2025 ac mae'n dangos gwerth cynnwys sgrin wrth helpu i frandio lleoedd a marchnata cyrchfannau.

2.9 Ymhlith y sgil-effeithiau eraill mae cyfraniadau anuniongyrchol datblygu stiwdios, arddangos mewn sinemâu, gwyliau ffilm, sgiliau, addysg a gweithgarwch allgymorth, yn ogystal â digwyddiadau diwylliannol sy'n wynebu'r cyhoedd fel Gwobr Iris a Chopa Cyfryngau Cymru.

## 3. Canfyddiadau allweddol - Effeithiau ehangach cynyrchiadau a ariannwyd gan Gymru Greadigol

### Datblygu’r gweithlu a llwybrau dilyniant

3.1 Mae'r rhaglen hefyd wedi darparu llwyfan cadarn ar gyfer datblygu’r gweithlu a llwybrau dilyniant. Cynorthwywyd mwy na 425 o hyfforddeion drwy’r cynyrchiadau a ariannwyd (o fewn cwmpas yr astudiaeth; mae'r ffigur hwn yn codi i 500 wrth ystyried portffolio llawn Cymru Greadigol hyd yma). Roedd modd i lawer o gyfranogwyr adeiladu rhwydweithiau proffesiynol a chael profiad drosodd a thro, gan gefnogi dilyniant i rolau uwch o fewn y diwydiant. Mae hyn yn gyson ag amcanion yn Mwy na Swydd, cynllun cyflogadwyedd Llywodraeth Cymru; Y Warant i Bobl Ifanc; amcan Rhaglen Llywodraeth Cymru i gynyddu prentisiaethau a datblygu ymrwymiadau o fewn y Cynllun Cyflogadwyedd a Sgiliau; a

Chynllun Gweithredu Sgiliau Creadigol i ehangu mynediad a sicrhau amrywiaeth yng ngweithlu'r diwydiannau creadigol.

**Datblygu diwydiannol a gwytnwch y sector**

3.2 O ran datblygu diwydiannol, nododd sawl cwmni cynhyrchu eu bod wedi ehangu eu galluoedd mewnol, cadw eiddo deallusol, neu gynyddu gweithrediadau o ganlyniad i'r cymorth gan Gymru Greadigol. Mae hyn wedi cryfhau gallu a gwytnwch y sector sgrin domestig, gan wella gallu cwmnïau Cymru i gystadlu'n fyd-eang a denu mewnfuddsoddiad. Mae'r effeithiau hyn yn ategu strategaeth Llywodraeth Cymru, Cymru'n Arloesi: creu Cymru gryfach, decach, a gwyrddach, a'r uchelgais i dyfu sectorau gwerth uchel sydd â'r potensial i allforio.

**Effaith ddiwylliannol ac ieithyddol**

3.3 Rhwng 2020/21 a 2024/25, mae Cymru Greadigol wedi dyrannu £2.0 miliwn ar draws 10 cynhyrchiad Cymraeg eu hiaith, sy'n cynrychioli tua 8% o gyfanswm cyllid cynhyrchu ac yn cyfateb i fwy nag un o bob pump o'r rheini oddi mewn i gwmpas yr astudiaeth. Mae'r buddsoddiad hwn yn cyfrannu at wneud y Gymraeg a hunaniaeth Gymreig gyfoes yn fwy gweledol ar y sgrin, gen hefyd gefnogi criw a chyflenwyr Cymraeg eu hiaith. Mae hyn yn adlewyrchu ymrwymiad y rhaglen i hybu amrywiaeth ddiwylliannol ac mae'n cyd-fynd â Cymraeg 2050, gan gefnogi amcan polisi Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

**Cynhwysiant cymdeithasol ac ymgysylltu cymunedol**

3.4 Roedd llawer o'r cynyrchiadau hefyd yn hybu gwerth cymdeithasol ehangach. Roedd nifer yn ceisio gwella cynrychiolaeth yn benodol drwy recriwtio cynhwysol, castio amrywiol, a mynd ati i adrodd storïau sydd wedi'u gwreiddio yng nghymunedau Cymru. Roedd eraill yn ymgysylltu â thrigolion lleol trwy ymgynghori, ffilmio ar leoliad, neu waith allgymorth. Roedd y cyfraniadau hyn yn hybu balchder lleol, cydlyniant a chyfranogiad diwylliannol.

**Perfformiad amgylcheddol**

3.5 Mae cynaliadwyedd amgylcheddol hefyd wedi bod yn nodwedd weladwy o'r cyflawni. Roedd pob arweinydd cynhyrchu yr ymgynghorwyd â hwy fel rhan o'r gwaith ymchwil hwn yn gweithio ar gynyrchiadau a oedd wedi derbyn ardystiad Albert, a dywedodd y rhan fwyaf eu bod yn gweithredu arferion cynhyrchu gwyrddach, megis cludiant carbon isel, dogfennau set digidol, a defnyddio cydlynwyr cynaliadwyedd. Mae'r arferion hyn yn cyfleu aeddfedrwydd cynyddol yn ymateb y sector i'r newid yn yr hinsawdd ac yn cyfrannu at dargedau lleihau allyriadau cyfreithiol rwymol Cymru o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Roedd y dwyster carbon cyfartalog fesul £1 miliwn o wariant cynhyrchu oddeutu 116 tunnell o $CO_2e$, 17% yn is nag asesiad carbon cyllideb 2025-2026 yr Alban (140 tunnell o garbon fesul miliwn o wariant)[5].

[5] Scottish Budget 2025 to 2026: Carbon assessment

## 4. Adolygiad o’r cyd-destun

4.1 Yn rhan o gyd-destun cyflawni’r gronfa hon, roedd cyfres o newidiadau strwythurol a geowleidyddol a drawsnewidiodd y dirwedd weithredol ar gyfer cynhyrchu sgrin, gan effeithio ar Gymru Greadigol a’r canlyniadau cynhyrchu a ariannwyd. Cyflwynodd ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd ansicrwydd ynghylch symudedd talent, cyd-gynyrchiadau, a mynediad at gyllid. Arweiniodd pandemig COVID-19 at aflonyddwch difrifol ar draws cadwyni cyflenwi, llinellau amser cynhyrchu, ac ymddygiad cynulleidfaoedd, gan greu newid parhaol mewn arferion gwaith a chyflymu dosbarthiad digidol. Yn y cyfamser, gwnaeth dibyniaeth gynyddol ar blatfformau ffrydio byd-eang ail lunio sut mae cynnwys yn cael ei gomisiynu, gyda mwy o gystadleuaeth am weledeedd a pherchnogaeth eiddo deallusol. Roedd gweithredu diwydiannol yn yr Unol Daleithiau (e.e., streiciau Urdd Awduron America a SAG-AFTRA) yn pwysleisio ymhellach anwadalrwydd y farchnad ryngwladol. Yn erbyn y cefndir hwn, mae gallu'r rhaglen i gynnal cynhyrchu, cadw talent, a hybu datblygiad cynnwys lleol yn pwysleisio pwysigrwydd buddsoddiad cyhoeddus.

## 5. Casgliad

5.1 I grynhoi, mae Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol wedi creu gwerth cyhoeddus pwysig ac aml-ddimensiwn. Mae wedi cryfhau sylfaen economaidd Cymru, uwchsgilio'r gweithlu, gwella cynrychiolaeth ddiwylliannol ac ieithyddol, a chodi proffil rhyngwladol Cymru fel lle i fyw, gweithio a chreu. Mae'r effeithiau hyn yn dangos sut y gall buddsoddiad cyhoeddus wedi'i dargedu mewn cynnwys sgrin hybu ystod eang o flaenoriaethau'r llywodraeth, o dwf economaidd cynhwysol i normaleiddio’r Gymraeg a chynaliadwyedd amgylcheddol.

# Archwilio effaith y **Cynyrchiadau a Ariannwyd gan Gymru Greadigol**

**wavehill**
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

**Rhwng 2020 a 2025 dyfarnodd Cymru Greadigol...**

**£23.7m**

**o gyllid i**

**45**

**o brosiectau sgrin a digidol**

Mae disgwyl i'r buddsoddiad hwn ysgogi

**£263.9m**

o wariant cynhyrchu yng Nghymru
(prisiau 2024/25)

Amcangyfrifir bod hyn yn cyfateb i tua

**£11.15**

mewn gwariant cynhyrchu yng Nghymru ar gyfer pob

**£1**

o gyllid Cymru Greadigol

**Wrth gynnwys effeithiau ysgogedig, amcangyfrifir y bydd cyfanswm y gwariant cynhyrchu yn creu...**

Gwnaeth pob

**£1**

o gyllid cynhyrchu Cymru Greadigol gynhyrchu

**£6.76**

mewn gwerth ychwanegol gros uniongyrchol ac anuniongyrchol

**2,835**

o swyddi cyfwerth ag amser llawn yng Nghymru

**£177.8m**

mewn Gwerth Ychwanegol Gros yng Nghymru

**Cyfanswm cyfraniad y gwerth ychwanegol gros uniongyrchol yw...**

**26%**

o gyfanswm allbwn sector 'Ffilm, Teledu, Radio a Ffotograffiaeth' Cymru yn 2023

Gallai twristiaeth wedi'i hysgogi gan sgrin sy'n gysylltiedig â chynyrchiadau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol gyfrannu hyd at...

**£226.4m** mewn gwerth ychwanegol gros

**a chefnogi hyd at...**

**1,400** o swyddi cyfwerth ag amser llawn

## Mae effeithiau ehangach y Cynyrchiadau a Ariannwyd gan Gymru Greadigol yn cynnwys...

### Y Gweithlu a Llwybrau Dilyniant

mwy na

**425**

o hyfforddeion wedi'u cefnogi drwy'r cynyrchiadau a ariannwyd

### Effeithiau Diwylliannol ac Ieithyddol

buddsoddi

**£2m**

ar draws 10 cynhyrchiad Cymraeg gan gyd-fynd â Chymraeg 2050

### Datblygu Diwydiannol a Gwytnwch y Sector

Dywedodd cwmnïau cynhyrchu eu bod wedi:

- Ehangu galluoedd mewnol
- Cyflwyno gweithrediadau ar raddfa fwy
- Cadw eiddo deallusol

### Cynaliadwyedd Amgylcheddol

Mae gan brosiectau a gynorthwywyd gan Gymru Greadigol ddwyster allyriadau carbon is na'r cyfartaledd

### Cynhwysiant Cymdeithasol ac Ymgysylltu Cymunedol

- Recriwtio cynhwysol
- Castio amrywiol
- Adrodd straeon sydd wedi'u gwreiddio yng nghymunedau Cymru

## Wrth ddadansoddi yn ôl Genre:

**Wedi'i sgriptio**
£22.5m o gyllid
→ **2,555** o swyddi | **£277.8m** o wariant | **£154.8m** mewn gwerth ychwanegol gros

**Di-sgript**
£0.5m o gyllid
→ **45** o swyddi | **£4.0m** o wariant | **£2.2m** mewn gwerth ychwanegol gros


**Animeiddio**
£0.5m o gyllid
→ **40** o swyddi | **£4.7m** o wariant | **£2.2m** mewn gwerth ychwanegol gros

**Gemau**
£0.2m o gyllid
→ **10** o swyddi | **£1.2m** o wariant | **£0.6m** mewn gwerth ychwanegol gros

## Gan edrych ar y math o gynhyrchiad:

**Mewnfuddsoddiad**
£14.2m o gyllid

**£181.4m** o wariant | **1,620** o swyddi | **£102.2m** mewn gwerth ychwanegol gros




## Cynyrchiadau Cymraeg eu hiaith

**£2.0m o gyllid**

**£20.4m** o wariant | **180** o swyddi | **£10.7m** mewn gwerth ychwanegol gros

Gwnaeth pob **£1** o gyllid cynhyrchu Cymru Greadigol

Gynhyrchu **£10.40** o wariant A **£5.47** mewn gwerth ychwanegol gros

Awduron yr Adroddiad: Michael Pang, Paula Gallagher, Greta Dennis, Rhys Maher, Stuart Merali-Younger, Richard Marsh a Tom Fleming.

wavehill
Social and economic research
Ymchwil cymdeithasol ac economaidd

Adroddiad Ymchwil Llawn: Pang, M, Gallagher, P, Dennis, G, Maher, R, Merali-Younger, S, Marsh, R and Fleming, T (2025). *Archwilio Effaith Cyllid Cynhyrchu Cymru Greadigol*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth 115/2025

Ar gael fan yma: https://www.llyw.cymru/archwilio-effaith-cynyrchiadau-ariennir-gan-cymru-greadigol

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd rhai Llywodraeth Cymru

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:
Cymru Greadigol Swyddog Ymchwil
Twristiaeth, Marchnata, Digwyddiadau a Chreadigol
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: CymruGreadigol@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.
This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol **978-1-80633-650-0**